CHARTERED SOCIETY
OF PHYSIOTHERAPY

CYMDEITHAS SIARTREDIG
FFISIOTHERAPI



# Esbonio safonau gwasanaeth ffisiotherapi cyhyrysgerbydol

## Pam ein bod ni angen safonau?

Mae'r safonau yn nodi beth yw ffisiotherapi ansawdd uchel a sut y dylid ei ddarparu. Mae hyn yn golygu bod pawb yn gwybod beth yw ffisiotherapi ansawdd da. Mae'r safonau hefyd yn helpu gwasanaethau, cleifion a'r cyhoedd i wybod pan fo angen gwella pethau.

Sganiwch i weld y fersiwn llawn

## Beth yw'r safonau?

Mae wyth safon ansawdd, gweler ochr arall y ddalen.

## Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Mae'r safonau'n golygu fod gwasanaethau ffisiotherapi preifat a GIG yn darparu'r rheolaeth a'r gofal gorau posibl. Mae'r safonau hyn yn nodi'r hyn y gallwch ei ddisgwyl. Caiff ffisiotherapi ei seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Caiff ei deilwra i chi a bydd yn rhoi ystyriaeth i'ch pryderon ac amgylchiadau personol. Cewch eich cynnwys mewn penderfyniadau am eich cyflwr. Bydd y ffisiotherapydd yn esbonio pethau mewn ffordd y gallwch ei deall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar sut y gall gweithwyr gofal iechyd eraill helpu a sut y mae'r system gofal iechyd yn gweithio i chi. Os cewch eich cyfeirio at adran neu arbenigydd arall, mae hyn hefyd yn golygu y bydd hynny mor llyfn ag sydd modd.

**Os ydych angen mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â'r Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig yn enquiries@csp.org.uk neu 020 7306 6666**

CHARTERED SOCIETY OF PHYSIOTHERAPY

CYMDEITHAS SIARTREDIG FFISIOTHERAPI

- **Mae Safon 1** Yn ymwneud â sut mae'r ffisiotherapydd yn eich archwilio ac yn eich holi am y cyflwr. Caiff cynllun ffisiotherapi personol ei lunio wedyn i gael y canlyniadau gorau i chi.
- **Mae Safon 2** Yn sicrhau y caiff y cynllun ffisiotherapi ei deilwra i chi. Mae'n rhoi ystyriaeth i'ch anghenion personol a'ch ffordd o fyw.
- **Mae Safon 3** Yn ymwneud â'r hyn y gallwch ei wneud i reoli eich cyflwr. Mae'n eich cynnwys chi ym mhob penderfyniad am eich ffisiotherapi.
- **Mae Safon 4** Am gyfathrebu. Mae hyn yn golygu y gallwch ddeall beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth ffisiotherapi. Mae hefyd yn eich helpu i ddeall y system gofal iechyd. Mae'n cynnwys sut y gellir cynnwys aelodau o'ch teulu a phobl eraill.
- **Mae Safon 5** Am ofal iechyd cydgysylltiedig. Mae hyn yn golygu fod gwahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i helpu cleifion. Dylai hyn osgoi oedi diangen mewn gofal.
- **Mae Safon 6** Am iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn golygu iechyd ar gyfer pawb, nid dim ond y rhai sy'n mynychu gwasanaethau iechyd.
- **Mae Safon 7** Golygu y gofynnir i gleifion os yw ffisiotherapi wedi eu helpu. Defnyddir hyn i wella ffisiotherapi.
- **Mae Safon 8** Yn ymwneud â llywodraethiant. Mae hyn yn golygu fod systemau i wirio a gwella ansawdd ffisiotherapi.



001976 SPED 06/2022